



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2013

## **Bwrdd Addysgu Iechyd Powys**

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 115A2014

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Addysgu Iechyd Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Roedd y tîm a ddatblygodd yr adroddiad hwn yn cynnwys Dave Thomas, Anthony Veale, John Dwight ac Andrew Doughton

# Cynnwys

---

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	8
Adran 1: Archwilio cyfrifon	9
Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13, er fy mod wedi cyflwyno adroddiad sylweddol ynghyd â'm barn archwilio ac wedi tynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater wrth wneud hynny	9
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	14
Nid yw sefyllfa ariannol bresennol y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy, o ystyried ei gyfluniad presennol a'r model comisiynu	15
Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi gwella, ond wrth i bwysau ariannol gynyddu, felly y bydd y risgiau i wasanaethau hefyd yn cynyddu, sy'n ei gwneud yn bwysicach atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ymhellach	19
Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi perfformiad cyffredinol dda a chyfleoedd i wella mewn nifer o feysydd allweddol	26
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	30
Ffi archwilio	31

# Adroddiad cryno

---

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Addysgu Iechyd Powys (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2013.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac mewn rhai achosion, i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 21 Ionawr 2014. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ([www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13, er fy mod wedi tynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater wrth wneud hynny.
7. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw at y cyllid ychwanegol a gafodd y Bwrdd Iechyd, yn bennaf er mwyn galluogi iddo gyflawni ei darged terfyn adnoddau ariannol.
8. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
  - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
  - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
  - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod gwelliannau y gellir eu gwneud o hyd.
9. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 drwy sicrhau broceriaeth adnoddau o £4.21 miliwn, y cytunwyd arni ym mis Mehefin 2013. Mae'r froceriaeth adnoddau hon yn ad-daladwy yn 2013-14.

---

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 10.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau drwy:
- waith Asesu Strwythuredig, sydd wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys llywodraethu ansawdd a'r trefniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion/defnyddwyr;
  - adolygiadau archwilio perfformiad, a gynhaliwyd ar feysydd penodol o ddarparu gwasanaethau.
- 11.** Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:

### Nid yw sefyllfa ariannol bresennol y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy, o ystyried ei gyfluniad presennol a'r model comisiynu

- 12.** Y llynedd, nodwyd gennyf nad oedd y Bwrdd Iechyd yn debygol o fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2012-13 ac mae cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy yn cael eu datblygu o hyd.
- 13.** Mae'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'm hadolygiad o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn ystod 2012-13 fel a ganlyn:
- Er bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth strategol glir, nid yw ei gynllun tair blynedd diwygiedig yn gynaliadwy yn ariannol ac mae'n dod yn gynyddol amlwg nad yw'r refeniw presennol na'r refeniw a ragwelir bellach yn ddigonol i fodloni'r galw am wasanaethau gofal iechyd. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun tair blynedd diwygiedig yn nodi diffyg cronol o £57.13 miliwn yn erbyn y dyraniad refeniw a ragwelwyd ar ei gyfer.
  - Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2013-14. Ym mis saith, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld gorwariant o £20 miliwn yn erbyn ei derfyn adnoddau. Mae risg gynyddol hefyd na fydd ganddo ddigon o arian parod i fodloni rhwymedigaethau tuag at ddiwedd y flwyddyn.
  - Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r arbedion a nodwyd ganddo ar gyfer 2012-13 yn llawn (cyflawnwyd £9.71 miliwn yn erbyn cynllun arbedion o £14.85 miliwn). Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau gan amrywiaeth o ddarparwyr gwahanol yn ei gwneud hi'n anos cyflawni arbedion heriol.
- 14.** Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru roi cynllun ariannol tymor canolig sy'n gynaliadwy yn ariannol ar waith ar gyfer 2014-15 ymlaen. Fodd bynnag, ni waeth pa gamau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd, na'r arbedion ychwanegol y nodwyd y gellid eu cyflawni heb effaith sylweddol ar y gofal sydd ar gael na'i ansawdd, nid yw'r refeniw cyffredinol bellach yn ddigonol i gyflawni'r galw presennol am wasanaethau gofal iechyd na'r galw a ragwelir yn y dyfodol.

- 
- 15.** Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud pob ymdrech i ddatblygu cynllun sy'n gynaliadwy dros y tymor canolig. Mae'n debygol y bydd angen iddo wneud nifer o benderfyniadau anodd o ran cyfluniad cyffredinol y Bwrdd Iechyd, llwybrau gofal, staffio, ystadau a mynediad i wasanaethau gofal. Fel rhan o'r datblygiad hwn, bydd angen i'r Bwrdd llawn arfarnu amrywiaeth o opsiynau strategol sy'n sicrhau y gall y Bwrdd Iechyd ddarparu a chomisiynu gwasanaethau o fewn ei adnoddau ariannol yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod y broses o arfarnu opsiynau yn nodi asesiadau risg, effaith a buddiannau yn glir.

**Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi gwella, ond wrth i bwysau ariannol gynyddu, felly y bydd y risgiau i wasanaethau hefyd yn cynyddu, sy'n ei gwneud yn bwysicach atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ymhellach**

- 16.** Noda fy adolygiad o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Bwrdd Iechyd y gwnaed rhywfaint o gynnydd, er bod cyflymder y cynnydd hwnnw wedi'i gyfyngu, yn rhannol, gan ddiffygion o ran capasiti. Yn benodol:
- mae trefniadau sicrwydd cyffredinol y bwrdd ar waith ond nid yw'r Bwrdd wedi mabwysiadu Fframwaith Sicrwydd ffurfiol eto; mater a nodwyd gennym yn ystod blynyddoedd blaenorol;
  - mae diwylliant cyffredinol y Bwrdd Iechyd, sydd i'w weld ymhlith aelodau a swyddogion gweithredol unigol, yn gydwybodol, yn darparu her onest ac yn awyddus i wella;
  - gwellwyd trefniadau rheoli risg yn ystod y flwyddyn, er bod nifer o risgiau uchel, yn enwedig o ran ystadau (adeiladau) y bydd angen ymdrin â hwy;
  - mae angen adolygu a diweddarau nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ffurfiol o hyd;
  - mae'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd llawn yn gwella gyda chysylltiadau cliriach i amcanion corfforaethol a llinellau atebolrwydd clir, ond mae angen gwybodaeth well am oblygiadau ariannol cynlluniau a strategaethau newydd.
- 17.** Mae trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae angen datblygiadau pellach, yn enwedig o ran llif sicrwydd i'r pwyllgor ansawdd a diogelwch, a chan y pwyllgor hwn i'r Bwrdd llawn. Mae ein harsylwadau o gyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgor ansawdd a diogelwch hefyd yn nodi bod diwylliant agored, da yn amlwg ymhlith aelodau, sy'n helpu i sicrhau y caiff agweddau sy'n ymwneud ag ansawdd eu trafod.
- 18.** Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd drefniadau rhesymol i gael gafael ar wybodaeth am brofiad defnyddwyr, digwyddiadau, cwynion a phryderon staff ac i ddysgu o'r wybodaeth hon, ac mae hyn yn helpu i liniaru'r risgiau mwy sylweddol. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i gydgyssylltu a sicrhau bod dulliau casglu data am brofiad cleifion yn fwy cyson ar draws safleoedd. Byddai hyn yn ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiadau corfforaethol i helpu wrth wneud penderfyniadau rheoli ac wrth ddarparu ffynhonnell o sicrwydd.

---

Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi perfformiad cyffredinol dda a chyfleoedd i wella mewn nifer o feysydd allweddol

19. Mae perfformiad gwasanaethau lleol yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol yn erbyn cyfartaledd Cymru, ond er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cynnal perfformiad cyffredinol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn lleol ac ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, ac mae risg y bydd y perfformiad hwn yn gwaethygu oherwydd pwysau ariannol.
20. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, lle mae'n rhagori ar ei dargedau arbedion. Mae angen iddo bellach egluro'r cyfeiriad strategol a'r strwythurau staffio ar gyfer rheoli meddyginiaethau, er mwyn parhau i gyflawni arbedion ac ymdrin â'r cyfleoedd sy'n bodoli i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd trefniadau rhagnodi lleol.
21. Mae dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd o ran hyfforddi, addysgu a dysgu yn adweithiol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion hyfforddiant cyfredol, sy'n gwanhau ei allu i ddatblygu ei weithlu ar gyfer y dyfodol. Mae'r Adran Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad yn cymryd camau rhagweithiol mewn ymateb i'r materion a nodwyd gennym, ac mae'r cynllun cychwynnol mewn ymateb i'n gwaith yn addawol.
22. Mae'r 12 mis diwethaf wedi cyflwyno heriau sylweddol i'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig o ran ei sefyllfa ariannol. Er fy mod wedi cydnabod meysydd lle y gwnaed cynnydd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â pherfformiad a llywodraethu, erys y sefyllfa ariannol yn fater allweddol y mae angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin ag ef o fewn y cynllun tair blynedd.
23. Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

---

## Yr adroddiad hwn

24. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Tachwedd 2013.
25. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - bodloni fy hun y cymhwyswyd y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
  - bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
26. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
  - hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
  - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
  - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
27. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn [Atodiad 1](#).
28. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- archwilio cyfrifon;
  - trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.
29. **Yn olaf, rhydd** Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.



---

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 30.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 31.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
  - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 32.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 33.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
  - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

**Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13, er fy mod wedi cyflwyno adroddiad sylweddol ynghyd â'm barn archwilio ac wedi tynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater wrth wneud hynny**

**Paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol**

- 34.** Paratowyd datganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd yn brydlon i'w cyflwyno ddechrau mis Mai. Yn ystod mis Mai, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y potensial ar gyfer broceriaeth ychwanegol ac, o ganlyniad, gohiriwyd y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r datganiadau ariannol terfynol archwiliedig, drwy gytundeb â Llywodraeth Cymru, tan 11 Mehefin 2013.

35. Er y gwnaed nifer o addasiadau cymharol fân i'r datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod hwnnw, derbyniodd y tîm archwilio wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ei waith. Mae'r terfynau amser hyn ar gyfer cyflwyno yn gynyddol heriol a dylid cymeradwyo tîm cyllid y Bwrdd lechyd am amseru eu gwaith ac am ansawdd y gwaith hwnnw.
36. Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ar 4 Mehefin 2013. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Adroddiad sylweddol	Er mai barn ddiamod oedd fy marn 'cywir a theg' a'm barn ar 'reoleidd-dra' mewn perthynas â datganiadau ariannol 2012-13, cyhoeddais adroddiad sylweddol ychwanegol ynghyd â'm tystysgrif archwilio, gan dynnu sylw at y cymorth ariannol ychwanegol a roddwyd i'r Bwrdd lechyd. O ganlyniad, cafwyd £4.21 miliwn o froceriaeth ychwanegol ym mis Mehefin 2013, gan alluogi'r Bwrdd lechyd gyflawni ei derfyn adnoddau refereni statudol.
Amcangyfrifon arwyddocaol	Mae nifer o amcangyfrifon arwyddocaol wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol. Er fy mod yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer pennu'r amcangyfrifon hyn, erys materion y bydd angen ymdrin â hwy yn ystod 2013-14: <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd nifer o gytundebau lefel gwasanaeth neu gytundebau hirdymor nad oeddent wedi'u llofnodi ar gyfer 2012-13 (fel mewn blynyddoedd blaenorol);</li> <li>• mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i gael ceisiadau ôl-weithredol am gostau gofal iechyd parhaus, y bydd angen eu rheoli a'u hasesu yn y dyfodol.</li> </ul>
Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS)	Er bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol yn bodloni'r gofynion a amlinellwyd yn Llawlyfr Cyfrifon y GIG, gwnaed nifer o sylwadau yn fy adroddiad a oedd yn ymwneud â chwblhau'r Datganiad: <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i'r Bwrdd lechyd gwblhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn 2013-14, er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ar waith yn ystod y flwyddyn er mwyn cael sicrwydd ar y broses o gyflawni amcanion corfforaethol;</li> <li>• o ganlyniad i oedi wrth gwblhau gwaith Archwilio Mewnol a pharatoi Adroddiad Blynyddol terfynol y Pennaeth Archwilio Mewnol, nid oedd y Datganiad terfynol yn barod i'w adolygu tan ddiwedd y broses archwilio.</li> </ul>

- 
- 37.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal yr adolygiadau canlynol:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2013, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
  - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol, ar y cyfan, yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei drefniadau ar gyfer llunio'r Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Ni neilltuwyd digon o amser i'r broses eleni i sicrhau digon o gyfle i'r pwyllgorau a'r swyddogion perthnasol adolygu'r Adroddiad Blynyddol.
  - Ni nododd fy archwiliad annibynnol o'r Cronfeydd Elusennol ar gyfer 2012-13 (y bwriadaf eu hardystio ym mis Ionawr 2014) unrhyw faterion y mae angen adrodd arnynt.

**Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er bod rhai meysydd i'w gwella**

- 38.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth er mwyn asesu p'un a yw'n rhoi sicrwydd nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol. Wrth asesu hyn, rwyf wedi ystyried y canlynol:
- trefniadau llywodraethu corfforaethol cyffredinol;
  - rheoli ariannol;
  - rheoli risg;
  - archwiliad mewnol.
- 39.** Nodir fy asesiadau manwl o'r tri maes cyntaf yn adran 2 o'r adroddiad hwn. Mae'r gwaith hwnnw yn tynnu sylw at y gwelliannau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn, ond nododd hefyd lle y mae angen gwneud rhagor o waith.
- 40.** O ran effaith hyn ar gywirdeb y datganiadau ariannol, mae fy marn fel a ganlyn:
- Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol yn egluro cyfrifoldebau dros reoli ac adrodd ariannol.
  - Mae trefniadau rheolaeth ariannol yn sicrhau asesiadau cywir o'r sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn.
  - Mae gwelliannau i drefniadau rheoli risg yn sicrhau bod risgiau ariannol yn cael eu monitro. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei bolisiâu a'i weithdrefnau yn parhau'n gyfredol ac yn ymwybodol o'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â chyflwr ystadau (adeiladau) y Bwrdd Iechyd, a'r goblygiadau ariannol.

- 
41. Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a ddarparwyd gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (NWSSP), deuthum i'r casgliad bod y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yn bodloni *Safonau Archwilio Mewnol 2009 ar gyfer y GIG yng Nghymru*. Fodd bynnag, mae meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau cysondeb pellach. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol, a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2013 a datblygiadau arfaethedig eraill eisoes yn mynd rhagddynt a fydd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gyrff iechyd yng Nghymru ymhellach. Mae hyn yn cynnwys paratoi Llawlyfr Ansawdd Archwilio mewnol, ar sail Cymru gyfan.
  42. Cyfeiriodd fy *adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol* a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ym mis Mehefin 2013 at y ffaith na dderbyniwyd Adroddiad Blynyddol terfynol y gwasanaeth Archwilio Mewnol tan ddiwedd mis Mai 2013. Roedd yr Adroddiad Blynyddol hwn gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cyfeirio at nifer o adroddiadau gyda gradd 'sicrwydd cyfyngedig' nas cadarnhawyd yn derfynol gyda'r rheolwyr. Bellach, mae'r Bwrdd Iechyd a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff adroddiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a allai effeithio ar yr asesiad o reolaeth fewnol eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac y cânt eu cwblhau'n brydlon. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i asesu'r adroddiadau hyn yn llawn wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol.
  43. Dylid nodi bod y gwaith a wneuthum mewn perthynas â'r gwasanaeth Archwilio mewnol yn ategu barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn cyfateb i asesiad o'r gwasanaeth archwilio mewnol o dan y Safonau Archwilio mewnol newydd ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAS). O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o'u gwasanaeth archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i'r gwaith y mae gwasanaethau archwilio allanol yn ymrwmo i ddibynnu arno, neu dderbyn sicrwydd ganddo, o fewn gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod gwelliannau y gellir eu gwneud o hyd

44. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy ngwaith archwilio. Mae gwaith y gwasanaeth Archwilio mewnol hefyd wedi cadarnhau bod archwiliadau o'r systemau ariannol a gaiff eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd yn cadarnhau system gyffredinol gadarn o reolaeth ariannol fewnol, sy'n darparu asesiad rhesymol o sicrwydd. Ar gyfer y systemau ariannol hynny a gaiff eu gweithredu gan NWSSP (gwasanaethau contractwyr gofal sylfaenol, y gyflogres a chyfrifon sy'n daladwy), roedd y gwasanaeth archwilio mewnol hefyd yn darparu asesiad rhesymol o sicrwydd.
45. Fodd bynnag, mae dau faes penodol y mae angen eu gwella ymhellach, fel yr amlygir yn Arddangosyn 2.

## Arddangosyn 2: Meysydd i'w gwella o fewn systemau ariannol

Systemau ariannol	Meysydd i'w gwella
Mynediad i systemau cyfrifiadurol a rheolaethau adrodd	Tynnodd ein gwaith archwilio technoleg gwybodaeth (TG) eleni sylw at yr angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>atgyfnerthu rheolaeth dros gyfrineiriau (dyddiadau dirwyn i ben, 'cryfder' cyfrineiriau);</li><li>defnyddio adroddiadau diogelwch archwilio yn fwy effeithiol;</li><li>profi'r systemau TG am unrhyw 'wendidau diogelwch mewnol'.</li></ul>
Prosiect Gofal Iechyd Parhaus (GIP) ôl-weithredol	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli prosiect ar ran Llywodraeth Cymru wedi'i anelu at glirio ceisiadau gofal iechyd parhaus ôl-weithredol (a dderbyniwyd o fewn paramedrau amserlen ddiffiniedig) ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol. Caiff y prosiect ei reoli drwy ddefnyddio cronfa ddata o geisiadau a gofnodwyd a manylion ategol.</p> <p>Nododd ein hadolygiad o'r gronfa ddata wallau o ran cywirdeb y data, gan mai dim ond pan roedd cais yn cael ei gwblhau y câi'r gronfa ddata ei diweddarau yn hytrach nag yn ystod y broses ymchwilio. O ganlyniad, gall y data a ddefnyddir gan fyrrddau iechyd eraill wrth asesu eu rhwymedigaethau posibl fod yn anghywir. Fodd bynnag, mewn sawl enghraifft, roedd byrddau iechyd lleol eraill yn defnyddio eu cofnodion eu hunain i bennu lefel y rhwymedigaeth i'w datgelu yn eu datganiadau ariannol.</p> <p>Byddwn yn gweithio gyda swyddogion, a thrwy ein cyswllt â thimau archwilio pob bwrdd iechyd i egluro'r sefyllfa (ac i roi canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryderon 'praf talu' a godwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar waith).</p>

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer diwedd 2012-13 drwy sicrhau broceriaeth adnoddau o £4.21 miliwn, y cytunwyd arni ym mis Mehefin 2013. Mae'r froceriaeth adnoddau yn ad-daladwy yn 2013-14 drwy leihau'r cyllid a ddyrennir i'r flwyddyn nesaf o swm cyfwerth.

46. Pennwyd terfyn adnoddau refeniw'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13 ar £230.7 miliwn i ddechrau, a arweiniodd at 'fwlch ariannu' o £19.1 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn. Rhoddwyd cynlluniau ar waith i leihau'r bwllch hwn £11 miliwn, gan adael diffyg amcangyfrifedig o £8.1 miliwn.

- 
- 47.** Rhyddhawyd £4 miliwn ychwanegol ym mis Tachwedd 2012 fel rhan o gyllid adnoddau ychwanegol i Gymru gyfan gan Lywodraeth Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, gofynnodd y Bwrdd Iechyd am froceriaeth adnoddau ychwanegol o £4.21 miliwn (a chafodd y swm hwnnw) er mwyn gwneud iawn am ei orwariant yn erbyn terfyn adnoddau 2012-13. Rhyddhawyd yr adnoddau ychwanegol ym mis Mehefin 2013 a bydd angen eu had-dalu yn ystod 2013-14. Darperir sylwebaeth bellach ar drefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 48.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
  - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Aseiad Strwythuredig, gyda phwyslais penodol ar lywodraethu ansawdd a chadernid trefniadau ar gyfer asesu profiad cleifion/defnyddwyr;
  - defnydd penodol o waith adnoddau mewn perthynas â rhagnodi ym maes gofal sylfaenol, perfformiad yn erbyn targedau gwasanaeth allweddol ar gyfer effeithlonrwydd gwasanaethau, ansawdd a mynediad, ac adolygiad o hyfforddiant, addysgu a dysgu.
- 49.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

---

## Nid yw sefyllfa ariannol bresennol y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy, o ystyried ei gyfluniad presennol a'r model comisiynu

Er bod gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth strategol glir, nid yw ei gynllun tair blynedd diwygiedig yn gynaliadwy yn ariannol ac o ystyried ei gyfluniad presennol a'i fodel comisiynu, nid yw ei referniw ariannol yn ddigonol i fodloni'r galw presennol am wasanaethau gofal iechyd na'r galw amdanynt yn y dyfodol

- 50.** Ym mis Ebrill 2013, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar ei gynllun tair blynedd o 2013-14 i 2015-16. Roedd y cynllun yn welliant o gymharu â'r dull blynyddol blaenorol o gynllunio, gan helpu i gyfleu'r hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei wneud, a dulliau gweithredu ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith. O safbwynt ariannol, y mater pwysicaf yn y cynllun oedd ei fod yn methu â nodi sut y gallai'r Bwrdd Iechyd fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd, ac oherwydd hyn, yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa ariannol anghynaliadwy. Nododd y fersiwn cyntaf o'r cynllun tair blynedd, a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2013, ddiffyg amcangyfrifedig cronol o £51.225 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.
- 51.** Yn ystod gwanwyn a haf 2013, comisiynwyd cwmni o gynghorwyr ariannol allanol a luniodd adroddiad ar yr arbedion cyffredinol posibl y gallai'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni. Nododd y gwaith hwn nifer o arbedion ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd y gweithlu a moderneiddio'r llwybr atgyfeirio a gofal. Roedd yr arbedion a nodwyd gan y cynghorwyr ariannol dros gyfnod o bum mlynedd ac yn cyfateb i £5.8 miliwn yn fwy na'r rheini a nodwyd eisoes gan y Bwrdd Iechyd. Mewn sawl enghraifft, bydd angen cryn amser i gyflawni'r arbedion hyn, ac o bosibl, rhywfaint o fuddsoddiad cychwynnol.
- 52.** Gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob Bwrdd Iechyd ddiwygio eu cynlluniau tair blynedd, a'u cyflwyno erbyn diwedd mis Medi 2013. Mae fersiwn diwygiedig y Bwrdd Iechyd o'r cynllun wedi ystyried risgiau a rhagdybiaethau ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r newid o ran y gwariant cyffredinol disgwylidig, ond mae'r cynllun diwygiedig yn nodi bod yr amcangyfrif o'r diffyg cronol tair blynedd wedi cynyddu i £57.138 miliwn.
- 53.** Bellach mae'n gynyddol amlwg nad yw'r referniw cyffredinol a gaiff y Bwrdd Iechyd yn ddigonol mwyach i gyflawni'r galw presennol am wasanaethau iechyd na'r galw disgwylidig yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn seiliedig ar y diffyg cronol a ragwelir, sef £57.138 miliwn (tua £19 miliwn y flwyddyn) yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y cynghorwyr ariannol allanol, sy'n nodi cyfanswm arbedion posibl.

- 
- 54.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen atgyfnerthu dulliau o sicrhau arbedion o hyd, er mwyn helpu i sicrhau y cyflawnir y cynlluniau arbedion yr ymrwymir iddynt. Fodd bynnag, hyd yn oed os cyflawnir graddfa'r arbedion a nodwyd, nid yw mewn sefyllfa ar hyn o bryd i ymdrin â'r bwlch ariannol cynyddol, heb effaith sylweddol ar argaeledd gwasanaethau neu eu hansawdd a'u diogelwch. Er mwyn ymdrin â'r bwlch hwn, bydd angen datblygu cynllun a fydd yn ystyried pob elfen isod, neu rai ohonynt:
- cyflunio'r Bwrdd Iechyd gan gynnwys ei safleoedd cymunedol, modelau gwasanaeth, modelau gwasanaeth cydweithredol, niferoedd y gweithlu a lefelau cyflog;
  - gwella a newid patrymau atgyfeirio a nifer y cleifion a gaiff eu hatgyfeirio;
  - asesu diogelwch clinigol a chanlyniadau iechyd ar gyfer cynlluniau arfaethedig er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn profi unrhyw ddiffygion o ran ansawdd gofal;
  - asesiad sy'n adolygu'r anghenion o ran adnoddau refeniw er mwyn bodloni'r galw am ofal iechyd gwledig lle y darperir y rhan fwyaf o'r gofal aciwt cymhleth a drutaf gan ddarparwyr a gaiff eu comisiynu o'r tu allan i'r sir.
- 55.** Fel rhan o'r broses gynllunio, bydd angen i'r Bwrdd llawn arfarnu amrywiaeth o opsiynau strategol sy'n sicrhau y gall y Bwrdd Iechyd ddarparu a chomisiynu gwasanaethau o fewn ei adnoddau ariannol yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod y broses o arfarnu opsiynau yn nodi asesiadau risg, effaith a buddiannau yn glir.

**Mae risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn 2013-14 ac mae risg gynyddol na fydd digon o arian parod ganddo i gyflawni ei rwymedigaethau tuag at ddiwedd y flwyddyn**

- 56.** Mae'r ffurflen fonitro ddiweddaraf (mis saith - Hydref 2013) yn nodi risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu rhai o'i dargedau ariannol, megis:
- terfyn adnoddau refeniw;
  - y gwariant arian parod a gynhelir gyda'r terfyn arian parod;
  - y targed talu'n brydlon ar gyfer talu anfonebau nad ydynt yn rhan o'r GIG.
- 57.** Mae'r adroddiad monitro yn rhagweld arbedion o £4.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn, yn erbyn cynllun arbedion o £9.6 miliwn ac yn nodi diffyg posibl o £20 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw presennol.
- 58.** Roedd y Bwrdd Iechyd yn pryderu am ei allu i wneud taliadau tuag at ddiwedd 2012-13, pan oedd yn rhagweld diffyg o £8 miliwn ar yr un pryd. Mae hyn yn debygol o gael ei ailadrodd (a'i waethygu) tuag at ddiwedd 2013-14.



---

**Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r arbedion a nododd ar gyfer 2012-13 yn llawn.**

- 59.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi her ariannol cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o ran y terfyn adnoddau refeniw, mae wedi dibynnu ar amrywiaeth o gynlluniau arbedion a lleihau costau, cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a broceriaeth yn erbyn cyllid y flwyddyn ganlynol.
- 60.** Yn 2012/13, datblygodd y Bwrdd Iechyd gynllun arbedion heriol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflawni arbedion o £14.85 miliwn (6.6 y cant o gyfanswm y refeniw). Roedd y cynllun hwn yn cynnwys nifer o gynlluniau arbedion, yn cwmpasu gwasanaethau a ddarperir yn fewnol, gwasanaethau corfforaethol ac arbedion yn seiliedig ar gomisiynu allanol.
- 61.** Er bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni cyfanswm yr arbedion gofynnol, cyflawnwyd arbedion gwirioneddol o £9.61 miliwn yn 2012/13 (4.25 y cant o gyfanswm y refeniw).
- 62.** Ymhlith y ffactorau allweddol a helpodd i gyflawni'r arbedion yn 2012/13, roedd\*:
- dulliau newydd o reoli rhaglenni a phrosiectau;
  - proses o nodi cynlluniau arbedion ychwanegol yn ystod y flwyddyn er mwyn ymdrin â llithriad neu dwf mewn costau;
  - prosesau cryfach ar gyfer negodi a herio contractau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.
- \*Noder: ni fydd rhai o'r meysydd arbedion na'r dulliau gweithredu hyn yn arwain at arbedion cost cylchol.
- 63.** Er y cafwyd rhywfaint o lwyddiant, daeth nifer o rwystrau i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:
- roedd rhai cynlluniau arbedion yn afrealistig;
  - yr amser cychwynnol, amser staff a'r adnoddau oedd eu hangen i gyflawni rhai o'r mentrau arbedion mwy cymhleth;
  - diffyg fframwaith comisiynu clir gyda darparwyr yng Nghymru er mwyn helpu i foderneiddio gwasanaethau, i leihau'r galw am ofal y tu allan i'r sir ac i sicrhau dulliau costio mwy cyson.
- 64.** Nid yw'r dulliau comisiynu presennol yn effeithiol oherwydd:
- Nid ydynt yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gynllunio ei arbedion comisiynu.
  - Nid yw'r dull comisiynu presennol yn ei gwneud hi'n hawdd i'r Bwrdd Iechyd leihau nifer y cleifion sy'n cael triniaeth y tu allan i'r sir, sef y maes lle y gellid cyflawni'r arbedion mwyaf.
  - Ceir tensiwn afiach rhwng Byrddau a arweiniodd at gyflafareddu dros gostau gwasanaethau a gomisiynwyd yn gynharach yn ystod y flwyddyn.
  - Nid yw'r dulliau gweithredu yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd 'ddadfwndeli' pecynnau gofal yng Nghymru yn hawdd. Mae hyn yn lleihau'r buddiannau ariannol sy'n gysylltiedig ag adleoli cleifion, ac felly'n tanseilio elfen sylweddol o'r weledigaeth a'r strategaeth.

- 
- Rydym wedi cael gwybod bod amrywioldeb cynhenid mewn costau uned gan ddibynnu ar ba Fwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth sy'n darparu gwasanaethau i Bowys.
  - Nid yw gwybodaeth fanwl am wasanaethau a gaiff eu comisiynu yng Nghymru bob amser yn ddigon manwl nac o ansawdd digon da i alluogi Byrddau Iechyd i feintoli mesurau a chanlyniadau manwl ar gyfer gweithgareddau, costau a pherfformiad gwasanaethau.
  - Nid oes unrhyw safonau cyson o fewn y dull comisiynu sy'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod darparwyr yn atebol ac i herio ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drigolion Powys.
- 65.** Rwyf wedi cyflwyno adroddiad ffurfiol manylach ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer llunio cynlluniau ariannol a rhoi cynlluniau arbedion ariannol ar waith a gellir cael rhagor o wybodaeth drwy'r ddolen ganlynol:
- [http://www.wao.gov.uk/reportsandpublications/localhealthboards\\_724.asp](http://www.wao.gov.uk/reportsandpublications/localhealthboards_724.asp)

---

Mae trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi gwella, ond wrth i bwysau ariannol gynyddu, felly y bydd y risgiau i wasanaethau hefyd yn cynyddu, sy'n ei gwneud yn bwysicach atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ymhellach

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ei ddull llywodraethu cyffredinol, er bod cyflymder y cynnydd hwnnw wedi'i gyfyngu, yn rhannol, gan ddiffygion o ran capasiti

66. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael blwyddyn heriol o ran cyllid cyffredinol ac er y bu hyn yn faes ffocws allweddol i'r rheolwyr a'r Bwrdd llawn, mae aelodau annibynnol ac uwch reolwyr wedi datgan yn glir na ddylai'r sefyllfa ariannol roi ansawdd gofal nac argaeledd gofal yn y fantol.
67. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran rhai agweddau ar ei drefniadau llywodraethu cyffredinol, ond erys meysydd eraill megis fframwaith sicrwydd y Bwrdd a pholisïau y mae angen eu datblygu yn anghyflawn. Mae capasiti corfforaethol canolog y Bwrdd Iechyd o dan bwysau, ac o ganlyniad, mae nifer o feysydd megis 'Gweithio i Wella' ac agweddau ar iechyd a diogelwch lle nad yw polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol neu ar waith.
68. Nodir ein canfyddiadau, sy'n dangos y meysydd sydd wedi gwella a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach, yn Arddangosyn 3.

### Arddangosyn 3 - Crynodeb o drefniadau llywodraethu Bwrdd addysgu Iechyd Powys

Agwedd ar llywodraethu	Canfyddiadau allweddol
<b>Sicrwydd gan y Bwrdd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ffurfioli strwythurau pwyllgorau ac is-bwyllgorau gyda chylchoedd gorchwyl cysylltiedig.</li><li>• Caiff agendâu'r Bwrdd eu llunio a'u gweinyddu'n dda. Mae Aelodau'r Bwrdd yn trafod materion a phryderon allweddol yn agored.</li><li>• Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi gwella ers fersiwn y llynedd.</li></ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ni chafodd Fframwaith Sicrwydd ffurfiol wedi'i ddogfennu ei ddatblygu, ei gytuno na'i fabwysiadu ar gyfer y Bwrdd eto.</li><li>• Mae dulliau i ddarparu sicrwydd gan bwyllgorau i'r Bwrdd ar waith ond mae angen eu hatgyfnerthu drwy nodi'r lefel benodol o sicrwydd a ddarparwyd i'r Bwrdd ac asesiad o ran p'un a oes unrhyw fylchau yn y sicrwydd a ddarparwyd.</li></ul>

Agwedd ar lywodraethu	Canfyddiadau allweddol
<p><b>Rheoli risgiau</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae trefniadau rheoli risg cyffredinol wedi gwella ac mae'r Pwyllgorau bellach yn uwchgyfeirio materion a risgiau. Noda hyn fod y pwyllgorau yn ymateb yn briodol i wybodaeth a gyflwynir iddynt.</li> </ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae nifer o risgiau a nodwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Iechyd sydd bellach yn dod yn faterion gweithredol, yn arbennig o ran ansawdd ystadau a diogelwch tân. Efallai y bydd angen trefniadau goruchwyllo er mwyn sicrhau y caiff camau i liniaru'r risgiau eu cwblhau o fewn terfynau amser priodol.</li> <li>Nid yw'r risg i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol yn faes a gaiff ei asesu'n llwyddiannus ac nid yw wedi'i gysylltu'n effeithiol eto â phrosesau'r datganiad llywodraethu blynyddol a'r datganiad ansawdd.</li> </ul>
<p><b>Gwybodaeth reoli</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r defnydd o wybodaeth reoli i ategu trefniadau llywodraethu, craffu a gwneud penderfyniadau yn gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth gael gafeael ar wybodaeth gan ddarparwyr o'r tu allan i'r sir a dehongli'r wybodaeth honno, ac mae'n gadarnhaol nodi bod adrodd ar wybodaeth bellach yn rhan o'r cytundebau lefel gwasanaeth newydd.</li> </ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen gwell gwybodaeth ar y Bwrdd Iechyd am oblygiadau ariannol cynlluniau a strategaethau a gaiff eu cytuno ar lefel y Bwrdd. Er eu bod ar waith mewn rhai meysydd, mae'n bwysig bod gan y Bwrdd well dealltwriaeth o oblygiadau ariannol wrth ymrwymo i fentrau, cynlluniau a strategaethau newydd.</li> <li>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi amcanion fel rhan o'i broses cynllunio tair blynedd, ond byddai gwybodaeth gliriach o fudd iddo er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn y nodau a'r canlyniadau strategol hyn.</li> </ul>
<p><b>Polisiâu a gweithdrefnau</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodwyd yn flaenorol bod nifer o bolisiâu ffurfiol y mae angen eu diweddarau. Prin fu'r cynnydd o ran ymdrin â'r mater hwn, ac ni roddwyd digon o sicrwydd bod yr holl bolisiâu allweddol ar waith ymhob un o'r meysydd risg.</li> </ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn allweddol ar waith ac yn gyfredol.</li> </ul>

Agwedd ar lywodraethu	Canfyddiadau allweddol
<p><b>Cynllunio strategol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Bwrdd lechyd wedi symud i gynllun tair blynedd ac mae'r cynllun hwn yn well na'r cylch cynllunio blynyddol blaenorol ac yn helpu i bennu dull gweithredu tymor hwy ar gyfer cyflawni'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau lechyd ym Mhowys.</li> </ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i'r Bwrdd lechyd wneud pob ymdrech i lunio cynllun tair blynedd sy'n gynaliadwy yn ariannol.</li> <li>Bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau ei fod yn gwella cadernid a dyfnder gwaith cynllunio, er mwyn galluogi'r Bwrdd i: <ul style="list-style-type: none"> <li>fod yn hyderus yn effeithiolrwydd y dulliau gweithredu i gyflawni newid a gwelliannau;</li> <li>darparu llinell sylfaen y gellir ei defnyddio i fonitro cynnydd.</li> </ul> </li> </ul>
<p><b>Strwythur y sefydliad</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae strwythur ardaloedd lleol yn aeddfedu ac yn dod yn fwy effeithiol. Y llynedd, nodais faterion yn ymwneud â llinellau atebolrwydd dryslyd rhwng ardaloedd daearyddol a chyfarwyddiaethau sy'n cwmpasu'r sir gyfan. Daeth y materion hyn, er nad ydynt yn faterion sylweddol, i'r amlwg eto eleni, gan gynnwys perchenogaeth a lleoliad y Gwasanaeth lechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed.</li> </ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd lechyd yn awyddus i ystyried strwythur, trefniadau gweithio a chynllunio rhwng y cyfarwyddiaethau a'r ardaloedd lleol. Gallai'r dull gweithredu hwn atgyfnerthu rôl ardaloedd lleol ac effeithiolrwydd gwasanaethau lechyd drwy hyrwyddo model comisiynu yn seiliedig ar ardaloedd lleol (ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn allanol ac yn fewnol).</li> </ul>
<p><b>Rheoli perfformiad</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r adroddiad ar berfformiad integredig bellach yn cysylltu'n agosach ag amcanion cyffredinol y Bwrdd lechyd, ceir atebolrwydd clir ymhlith uwch reolwyr dros bob maes perfformiad, dull gweithredu ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar dueddiadau mewn perfformiad, ac mewn rhai meysydd, camau gwella wedi'u nodi'n glir. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn gwella o ran cyflwyno adroddiadau ar wybodaeth am berfformiad gwasanaethau a ddarperir y tu allan i'r sir.</li> </ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd sicrhau bod y data a'r wybodaeth gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir o ansawdd digonol (hygyrch, cywir ac amserol) yn her arbennig i'r Bwrdd lechyd.</li> </ul>

---

Mae trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wella, er bod angen datblygiadau pellach, yn enwedig o ran llif sicrwydd i'r pwyllgor ansawdd a diogelwch, a chan y pwyllgor hwn i'r Bwrdd llawn

- 69.** Mae'r Bwrdd llawn yn cynnal trafodaethau agored ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch o ran y gwasanaethau a ddarperir yn lleol yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir y tu allan i'r sir, neu'r rheini a gaiff eu rheoli gan ddarparwyr o'r tu allan i'r sir megis gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cynnal gwaith craffu manwl ar faterion ansawdd a diogelwch. Er bod y Bwrdd llawn yn cael adroddiadau rheolaidd gan y pwyllgor hwn, mae angen atgyfnerthu'r broses hon er mwyn darparu eglurder o ran cryfder y sicrwydd a roddir, neu unrhyw fylchau o ran y sicrwydd hwnnw. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, bydd angen dull mwy strwythuredig ar y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar gyfer:
- cynllunio a chael ei sicrwydd gan is-bwyllgorau, grwpiau, rheolwyr a darparwyr sicrwydd ansawdd allanol/annibynnol;
  - categorio'r lefelau sicrwydd a ddarperir yn yr adroddiadau a geir gan y pwyllgor;
  - cynnwys casgliadau gwerthusol o fewn crynodebau gan reolwyr, er mwyn nodi cryfderau a gwendidau yn glir.
- 70.** Ceir crynodeb pellach o ganfyddiadau fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig ar waith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r trefniadau llywodraethu ansawdd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn Arddangosyn 4.

---

#### Arddangosyn 4 - Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a Gwasanaethau a Gomisiynir

Meysydd Ilywodraethu ansawdd a diogelwch	Canfyddiadau allweddol
<b>Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Caiff y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ei weinyddu'n dda, ceir lefelau presenoldeb a cheir trafodaethau agored a gonest am y risgiau a'r materion a gyflwynir.</li><li>• Mae'r pwyllgor wedi cynnal sesiynau datblygu ac mae ganddo bellach raglen waith yn seiliedig ar risgiau.</li><li>• Mae'r Pwyllgor bellach yn cynnal cyfarfod cyhoeddus sy'n helpu i sicrhau tryloywder o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau.</li><li>• Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael amrywiaeth o adroddiadau, ond ar hyn o bryd nid yw llawer ohonynt wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n ddefnyddiol o ran pennu'r lefel sicrwydd gyffredinol.</li></ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Nid yw agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cynnwys adroddiad ar berfformiad o ran ansawdd. Defnyddir y dull hwn gan fyrddau ieuchyd eraill, a gall helpu aelodau i ddeall agweddau allweddol ar ansawdd a thueddiadau cyffredinol.</li><li>• Byddai o fudd petai gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ffynonellau sicrwydd wedi'u diffinio'n gliriach gan gynnwys adroddiadau rheoli mewnol neu adroddiadau gan grwpiau is-bwyllgor Bwrdd y Cyfarwyddwyr, yn ogystal â darparwyr sicrwydd allanol.</li><li>• Nid oes gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ddull gweithredu ar gyfer olrhain argymhellion a byddai o fudd iddo roi dull gweithredu o'r fath ar waith er mwyn goruchwyllo camau gweithredu ac argymhellion a gaiff eu cyflwyno mewn adroddiadau gan reolwyr a darparwyr sicrwydd.</li></ul>
<b>Gwasanaethau a gomisiynir</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella gwybodaeth o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau i gleifion a gaiff eu trin y tu allan i'r sir. Mae'r maes hwn yn datblygu, ond mae'n dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwella fel comisiynydd gwasanaethau o ran deall ansawdd gwasanaethau i'r cleifion y mae wedi comisiynu'r gwasanaethau hynny ar eu cyfer.</li></ul> <p>Meysydd i'w datblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cael sicrwydd priodol, a'i fod yn gallu cael gafael ar yr holl ddata ansawdd gofynnol gan bob partner o ran gwasanaethau a gomisiynir.</li></ul>

- 
- 71.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ofyniad i lunio a chyhoeddi ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol erbyn 30 Medi 2013. Gellir gweld y Datganiad ar y wefan, ac mae wedi'i ysgrifennu mewn fformat cymharol glir a hygyrch. Mae'n gadarnhaol nodi bod Ardal Leol y Gogledd wedi llunio Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer yr ardal leol, ac mae hyn yn enghraifft o ddull gweithredu sicrwydd ansawdd sefydledig sy'n helpu i bennu dyheadau a disgwyliadau ar gyfer ardal leol y gogledd mewn perthynas ag ansawdd gwasanaethau. Mae hyn wedi gosod cynsail dda i unedau busnes eraill o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am brofiad defnyddwyr, digwyddiadau, cwynion a phryderon staff a dysgu o'r wybodaeth honno, ond mae'r tîm canolog o dan bwysau sylweddol, nid yw polisïau a gweithdrefnau wedi'u ffurfioli eto, a gellid gwella'r broses o rannu'r gwersi a ddysgwyd ymhellach

- 72.** Fel comisiynydd gwasanaethau aciwt, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer cael adborth ar ansawdd gwasanaethau a gaiff eu comisiynu. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am roi systemau ar waith ar gyfer cael adborth ar y gwasanaeth a ddarperir ganddo, ac am weithredu ar faterion sy'n deillio o hynny. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig eleni wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cael gafael ar wybodaeth am brofiad defnyddwyr, digwyddiadau, cwynion a phryderon staff a dysgu o'r wybodaeth honno.
- 73.** Mae gan y Bwrdd Iechyd amrywiaeth o ddulliau ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Er enghraifft, mae'r ymweliadau gan aelodau o'r bwrdd a'r straeon gan gleifion ar ddiwedd pob un o gyfarfodydd y Bwrdd yn helpu aelodau i feithrin dealltwriaeth ymarferol bwysig, a gallant gefnogi a herio ansawdd gwasanaethau a ddarperir yn lleol. Fel rhan o'r asesiad strwythuredig, cyfarfu fy staff ag amrywiaeth o wahanol dimau gwasanaeth iechyd. Roedd yr aelodau hyn o staff yn amlwg yn cymryd ansawdd a diogelwch gwasanaethau o ddifrif, a nodwyd nifer o ddulliau ganddynt ar gyfer cael adborth gan ddefnyddwyr, a oedd yn amrywio rhwng timau ac ardaloedd lleol. Fy marn gyffredinol am y timau y gwnaethom gyfarfod â hwy oedd bod diwylliant staff da o ran darparu gwasanaethau diogel o ansawdd, ac o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau a rhai risgiau, gan ddefnyddio system Datix.
- 74.** Os gallai'r Bwrdd Iechyd fod yn fwy cyson wrth gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion, yna byddai hyn yn arwain at ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth gymharol, a fyddai hefyd, fel sgil-gynnyrch, yn darparu ffynhonnell o sicrwydd i'r grŵp Gwella Cyfranogiad a Phrofiad Cleifion (IPIE) ei ddarparu i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.
- 75.** Ymddengys fod y Bwrdd Iechyd yn barod i dderbyn cwynion ac ymdrin â hwy ac mae ganddo amrywiaeth o ddulliau gweithredu ar waith ar gyfer derbyn y math hwn o adborth gan gleifion. Yn gyffredinol, nifer fach o gwynion a gaiff y Bwrdd Iechyd, ac mae prosesau ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ac ymateb iddynt, er nad yw'r prosesau hyn wedi'u ffurfioli eto i greu polisïau a gweithdrefnau cymeradwy. Nid oes bob amser ddigon o adnoddau penodedig i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o gwynion.



- 
- 76.** Mae'r Uned Ansawdd a Diogelwch yn dîm canolog sy'n hwyluso'r gwaith o brosesu cwynion, digwyddiadau a phryderon ac mae'n darparu cyngor arbenigol i ardaloedd lleol a chyfarwyddiaethau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau 'Gweithio i Wella'. Mae hefyd yn gyfrifol am hwyluso a chydgyssylltu dulliau gweithredu ar gyfer ieched a diogelwch corfforaethol, rheoli risg, profiad cleifion a chefnogi gofynion llywodraethu ansawdd. Mae risg o ran gallu'r uned ansawdd a diogelwch i gynnal gwaith ataliol rhagweithiol yn ogystal â phrosesau adfer ymatebol. Mae'n amlwg bod gan reolwyr safonau a disgwyliadau uchel o ran ansawdd a diogelwch, ond ar hyn o bryd, mae'r tîm o dan bwysau mawr a gallai hyn beri risg i'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol. Gallai wynebu'r risgiau canlynol:
- gallai amseroldeb ymateb i gwynion a phryderon waethygu neu ni ellid gwella gofynion o dan Reoliad 26 mewn perthynas ag ymatebion interim;
  - nid yw polisiâu a gweithdrefnau pwysig gan gynnwys gofynion 'Gweithio i Wella' wedi'u datblygu'n llawn nac wedi'u sefydlu'n llawn ar draws y gwasanaethau;
  - caiff dulliau rhagweithiol o wella ansawdd gwasanaethau mewn ardaloedd lleol a chyfarwyddiaethau eu hepgor er mwyn bodloni gofynion ymateb i gwynion 'risg uchel' y mae mwy o frys yn eu cylch.
- 77.** Mae'r rheolwyr yn ymwybodol o'r problemau, ac wrthi'n rhoi cynllun ar waith i wella eglurder strwythur a chyfrifoldebau'r uned ansawdd a diogelwch, ac i helpu i sicrhau bod digon o staff ar gael sy'n meddu ar yr arbenigedd proffesiynol gofynnol.
- 78.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei brif ofynion o dan 'Gweithio i Wella', ond ni chaiff y gwersi bob amser eu rhannu ar draws pob safle. Nododd ein gwaith fod digwyddiadau a phryderon lleol yn cael eu rheoli yn yr ardal leol a bod timau rheoli yn trafod, yn datrys ac yn rhannu gwersi ar draws yr ardal leol, ond nid bob amser rhwng ardaloedd lleol. Fodd bynnag, ceir adegau lle yr ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn briodol i faterion, ond na hysbysodd eraill am y camau gweithredu a gymerwyd ganddo. Byddai o fudd i'r Bwrdd Iechyd roi adborth cliriach a hyrwyddo'r camau gweithredu a gymerodd i adfer unrhyw risgiau. Yn ogystal â sicrhau bod y rheini a roddodd adborth yn cael cadarnhad bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu, byddai'r dull hwn hefyd yn rhoi hyder i eraill feddwl pe byddent yn rhoi adborth drwy lwybr ffurfiol neu anffurfiol, y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gwrando arnynt, ac y byddai unrhyw broblemau a oedd ganddynt yn cael eu datrys.
- 79.** Fel rhan o brosesau ansawdd effeithiol, mae hefyd yn bwysig y gall aelodau o staff godi pryderon os bydd angen. Yn y Bwrdd Iechyd, y duedd yw ymdrin â phryderon gan staff drwy'r strwythur rheolwyr llinell. Noda fy ngwaith fod staff yn gwybod at bwy y dylent gyflwyno pryderon os bydd angen ac nad oes ganddynt ofn gwneud hynny. Roedd staff hefyd yn ymwybodol o drefniadau amgen ar gyfer codi pryderon os bydd eu hangen. Roedd trefniadau cyffredinol ar gyfer rhoi polisi a threfniadau chwythu'r chwiban wrthi'n cael eu rhoi ar waith o hyd, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y trefniadau hyn eu rhoi ar waith a'u hyrwyddo'n effeithiol.

---

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi perfformiad cyffredinol dda a chyfleoedd i wella mewn nifer o feysydd allweddol

Mae perfformiad gwasanaethau lleol yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol yn erbyn cyfartaledd Cymru, ond er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n anodd cynnal perfformiad cyffredinol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn lleol ac ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, ac mae risg y bydd y perfformiad hwn yn gwaethygu oherwydd pwysau ariannol

- 80.** Mae Asesiad Strwythuredig eleni wedi cynnwys dadansoddiad o'r data perfformiad sydd ar gael yn ganolog ar dargedau gwasanaeth allweddol. Defnyddiwyd y data hyn i helpu i asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau darbodus a hygyrch o ansawdd da i gleifion.
- 81.** Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion mynediad lleol, ond mae pwysau cynyddol o ran amseroldeb gofal o'r tu allan i'r sir wrth i'r galw a'r cyflenwad o fewn darparwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill ddod o dan bwysau:
- cyrhaeddir targedau atgyfeirio i driniaeth yn lleol, ond ceir llithriad cynyddol o ran amseroedd aros i drigolion o Bowys a gaiff eu trin y tu allan i'r sir;
  - mae amseroedd ymateb ambiwlansys gofal heb ei drefnu yn parhau i fod yn faes o bwysau, a noda ffigurau mis Hydref fod cleifion ym Mhowys yn tueddu i aros yn hwy am wasanaethau ambiwlans brys na'r rhan fwyaf o'r siroedd eraill yng Nghymru (mae daearyddiaeth Sir Powys ac argaeledd adnoddau gwasanaeth ambiwlans yn debygol o fod yn ffactorau craidd);
  - mae perfformiad unedau mân anafiadau ym Mhowys yn cyrraedd y targedau gofynnol, ond er bod adrannau brys y tu allan i'r sir yn gwella, maent yn ei chael hi'n anodd o hyd i gyflawni'r targedau ar gyfer darparu triniaeth o fewn pedair awr.
- 82.** Fel rhan o waith eleni, rwyf wedi asesu'r prosesau ansawdd a diogelwch yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael am berfformiad ansawdd. Ymddengys fod diogelwch gwasanaethau ym Mhowys yn dda, ond nid yw mor eglur ar gyfer gwasanaethau y tu allan i'r sir a chanlyniadau i gleifion:
- mae nifer yr achosion o heintiau a geir yn yr ysbyty yn gymharol isel, ond bu cynnydd yn nifer yr achosion o C-difficile mewn ysbytai ym Mhowys, a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar hyn;
  - mae nifer y cwynion a'r digwyddiadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn lleol hefyd yn ymddangos yn gymharol isel, ond mae aciwtedd triniaeth yn is na byrddau iechyd eraill, ac felly mae'n anodd cymharu;
  - byddai o fudd i'r Bwrdd Iechyd pe bai ganddo ddealltwriaeth gliriach o ganlyniadau cleifion er mwyn nodi p'un a yw ymyriadau gofal iechyd wedi gwneud gwahaniaeth.

---

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll**

- 83.** Ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol ac mae'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau. Mae'n paru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data yng Nghymru o dan bwerau statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Fenter yn adnodd hynod effeithiol o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o ran helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau gwrthdwyll a llygredd.
- 84.** Cyflwynodd y cyrff sy'n cymryd rhan ddata i ymarfer presennol y Fenter ym mis Hydref 2012. Parwyd y data a chyflwynwyd y canlyniadau i'r cyrff sy'n cymryd rhan ym mis Ionawr 2013.
- 85.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd rhan yn y Fenter ac mae'n gwneud cynnydd da mewn nifer o wahanol feysydd.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da ym maes rhagnodi gofal sylfaenol, lle y mae'n rhagori ar y targedau ar gyfer arbedion, ond mae angen iddo egluro'r cyfeiriad strategol a'r strwythurau staffio ar gyfer rheoli meddyginiaethau er mwyn parhau i gyflawni arbedion ac ymdrin â'r cyfleoedd sy'n bodoli i wella diogelwch, ansawdd a darbodusrwydd trefniadau rhagnodi lleol.**

- 86.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ym maes rhagnodi gofal sylfaenol, ac wedi cymryd camau llwyddiannus i leihau costau uned drwy annog sefydliadau i ragnodi cyffuriau generig neu frand, pa rai bynnag sy'n costio leiaf, lle y bo hynny'n ddiogel ac yn sicrhau effeithiolrwydd clinigol.
- 87.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei dargedau arbedion yn gyson ym maes rhagnodi. Y targed a bennwyd ar gyfer arbedion ym maes rhagnodi oedd £0.8 miliwn yn 2012-13 a llwyddwyd i gyflawni arbedion o £1.0 filiwn yn fwy na'r targed hwnnw ar ddiwedd y flwyddyn, gan roi cyfanswm arbedion o £1.8 miliwn. Ar y lefel leol, mae'r tîm rhagnodi yn monitro gwariant gan feddygon teulu fel rhan o gynllun gwasanaeth estynedig lleol lle y caiff rhwydwaith o fferyllwyr cymunedol eu dyrannu i feddygfeydd er mwyn sicrhau trefniadau rhagnodi effeithiol o ansawdd.
- 88.** Ar lefel gorfforaethol, mae gan reoli meddyginiaethau broffil isel gan fod y Bwrdd Iechyd eisoes yn cyflawni'r gost isaf fesul uned ragnodi yng Nghymru ac yn rhagori ar ei dargedau arbedion. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae angen i'r Bwrdd sicrhau nad yw'n colli cyfleoedd pellach i wella ansawdd trefniadau rhagnodi, yn arbennig o ystyried bod fy adolygiad wedi nodi nifer o feysydd y mae angen eu gwella o hyd.
- 89.** Felly mae'n bwysig bod gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ragnodi gytûn ar gyfer y dyfodol er mwyn parhau i sicrhau gwelliannau o ran cost gyffredinol ac ansawdd trefniadau rhagnodi. Er bod strategaeth ragnodi ddrafft:

- 
- ni chafodd ei llywio gan ddadansoddiad cadarn na chynhwysfawr o ddemograffig ac anghenion iechyd y cyhoedd penodol y Bwrdd Iechyd na phrosesau ymgysylltu â chleifion a rhanddeiliaid;
  - mae'n cyfeirio at risgiau a chostau cyffuriau newydd drud ond nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth na dadansoddiadau ariannol o ran sut y bydd y rhain yn effeithio ar lwybrau gofal sy'n bodoli eisoes;
  - nid yw'n cynnwys amcanion CAMPUS nac yn targedu adnoddau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf, er bod y bwrdd yn monitro'r targedau ariannol a pherfformiad lefel uchel.
- 90.** Er bod cyfrifoldeb swyddogion gweithredol am reoli meddyginiaethau yn glir, mae angen egluro'r strwythur staffio a strwythur y pwyllgor rhagnodi, ac erys heriau sylweddol ar draws rhyngwyneb gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Er enghraifft, mae cymorth rhagnodi i ofal sylfaenol yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau arloesol ond ar adeg yr adolygiad, roedd y prosiectau hyn yn adweithiol ac nid oeddent yn gysylltiedig â strategaeth a oedd yn golygu bod risg y câi ymdrechion eu dyblygu ac y byddai amcanion blaenoriaeth uwch yn cael eu methu.
- 91.** Mae cymorth i ofal sylfaenol drwy'r fferyllwyr cymunedol sy'n defnyddio'r cynllun gwasanaethau estynedig lleol yn cyflwyno buddiannau er bod angen atgyfnerthu trefniadau contractio a'r cymorth a roddir i'r fferyllwyr hyn.
- 92.** Mewn perthynas â'r rhyngwyneb sy'n gweithio rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio cytundebau gofal a rennir mewn meysydd allweddol ond erys heriau sylweddol o ran cydymffurfiaeth meddygon â'r cytundebau, trefniadau cysoni meddyginiaethau a gwybodaeth am ryddhau cleifion.

**Mae dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd o ran hyfforddi, addysgu a dysgu yn dameidiog ac yn adweithiol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion hyfforddiant cyfredol, sy'n gwanhau ei allu i ddatblygu ei weithlu ar gyfer y dyfodol**

- 93.** Cyhoeddwyd Fframwaith i Ddatblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012, sef *Gweithio'n Wahanol - Gweithio Law yn Llaw*. Wrth ymateb i ofynion y fframwaith, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu rhai heriau ychwanegol lleol penodol megis gweithlu cyfrannol lai gyda mwy o weithwyr rhan amser na byrddau iechyd eraill yng Nghymru. Yn ogystal, caiff staff eu lleoli ar draws ardaloedd daearyddol mawr ac yn aml, mae timau yn fach ac wedi addasu'n lleol drwy sicrhau bod aelodau o staff yn meddu ar nifer o sgiliau gwahanol.
- 94.** Daeth fy adolygiad o hyfforddi, dysgu ac addysgu i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant, ond bod ei ddull gweithredu yn dameidiog ac yn adweithiol gan ganolbwyntio'n bennaf ar ofynion hyfforddiant cyfredol ei ardaloedd lleol, ei gyfarwyddiaethau a'i adrannau. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd strategaeth gorfforaethol gyffredinol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad ac nid oedd y Fframwaith Dysgu a Datblygu newydd wedi ymsefydlu yn y sefydliad eto.

---

**95.** Cymerwyd rhai camau cadarnhaol cychwynnol eisoes i wella cydbwysedd a phwyslais hyfforddiant, datblygiad a dysgu yn y Bwrdd Iechyd, ond mae angen gwneud mwy:

- Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau a dulliau sefydliadol sy'n helpu i gyflwyno hyfforddiant, datblygiad a dysgu. Mae'n darparu hyfforddiant sgiliau a galluoedd craidd i'w staff, ond bydd angen iddo ystyried gwneud newidiadau i'r dull presennol er mwyn gwella effeithiolrwydd. Mae staff a rheolwyr yn gweithredu'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ond byddent yn croesawu gwelliannau i'r prosesau a'r systemau sefydliadol sy'n ategu hyfforddiant, datblygiad a dysgu.
- Ymddengys fod y trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant sefydlu yn gynhwysfawr. Roedd adborth staff ar yr hyfforddiant hwn yn gadarnhaol iawn, er y codwyd pryderon yn ystod fy adolygiad am lefel y staff nad oeddent yn mynd i'r hyfforddiant a'r anhawster o ran sicrhau bod pob aelod newydd o staff wedi cael hyfforddiant sefydlu priodol. Cododd staff hefyd bryderon am anawsterau wrth neilltuo amser i fynd i hyfforddiant ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu ac asesu p'un a oes cyfleoedd i sicrhau bod yr hyfforddiant sefydlu yn fwy hygyrch i aelodau newydd o staff.
- Nododd fy ngwaith hefyd nad oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar hyn o bryd, ar lefel sefydliadol, ar gyfer monitro'r hyfforddiant, yr addysgu a'r dysgu a ddarperir a'i lwyddiant ledled Powys. Nid yw'r prosesau a'r systemau a ddefnyddir ar hyn o bryd i reoli'r broses o roi'r cynlluniau hyfforddiant blynyddol niferus sy'n bodoli ar draws y sefydliad yn destun trefniadau parhaus ar gyfer monitro lefelau cyfranogiad a phresenoldeb. Gellir priodoli'r diffyg adroddiadau monitro rheolaidd yn rhannol i'r dull gweithredu tameidiog sydd ar waith ar hyn o bryd.

# Atodiad 1

---

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mehafin 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehafin 2013
Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	Gorffennaf 2013
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2013
<b>Adroddiadau archwilio perfformiad</b>	
Adolygiad o Hyfforddiant, Addysgu a Dysgu Sefydliadol	Mehafin 2013
Rhagnodi ym maes Gofal Sylfaenol	Awst 2013
Cynllunio ariannol a rhoi cynlluniau arbedion ariannol ar waith	Awst 2013
Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer gwneud copïau wrth gefn o ddata	Hydref 2013
Asesiad Strwythuredig Blwyddyn 4	Rhagfyr 2013
<b>Adroddiadau eraill</b>	
Amlinelliad o Waith Archwilio 2013	Mawrth 2013

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Adolygiad o'r Trefniadau Codio Clinigol	Ionawr 2014
Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg	Mawrth 2014

## Atodiad 2

---

### Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2013 ffi archwilio arfaethedig o £256,162 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, mae fy amcangyfrif diweddaraf yn unol ag amlinelliad 2013.

Maes archwilio	2010 (£)	2011 (£)	2012 (£)	2013 (£)
Cyfrifon ariannol	155,199	146,998	143,013	143,013
Archwiliad perfformiad	118,860	117,224	113,149	113,149
Cyfanswm	274,059	264,222	256,162	256,162



WALES **AUDIT** OFFICE  

---

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)